Cyngor Osteopathig Cyffredinol

**Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

**Llunio Gorchmynion Amodau Ymarfer** **Hydref 2013**

## Rhagarweiniad

1. Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) gan *Ddeddf Osteopathiaid 1993* (y Ddeddf) i reoleiddio a datblygu proffesiwn osteopathi. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â swyddogaeth reoleiddio'r GOsC ac, yn benodol, gwaith ei Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC).

2. Lluniwyd y ddogfen hon yn bennaf i gynorthwyo'r PCC pan fydd wedi penderfynu y dylid gosod Gorchymyn Amodau Ymarfer ar osteopath. Fodd bynnag, gall y wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon hefyd fod o gymorth i osteopathiaid, eu cynrychiolwyr cyfreithiol, cyrff proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd.

3. Mae Gorchymyn Amodau Ymarfer yn caniatáu i osteopath barhau i ymarfer, gan ddarparu diogelwch i'r cyhoedd a chleifion. Wrth lunio amodau, bydd lles y cyhoedd yn flaenllaw ym meddwl y PCC.

4. Mae'r ddogfen hon yn cyfannu'r Canllawiau Sancsiynau Dangosol ac mae wedi'i chynllunio i arwain y PCC pan fydd angen iddo lunio amodau y mae'n rhaid i osteopath gydymffurfio â nhw. Nid yw'n cynnwys popeth ac ni fwriedir iddi gyfyngu'r PCC rhag arfer ei farn ei hun.

## Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC)

5. Mae'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan y PCC yn cael eu llywodraethu'n bennaf gan y Ddeddf a Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol) (Gweithdrefnau) 2000 (y Rheolau). Mae deddfwriaeth arall, fel *Deddf Hawliau Dynol 1998*, hefyd yn cael effaith ar y ffordd y mae'r PCC yn gweithredu a'r gweithdrefnau y mae'n eu mabwysiadu, felly hefyd y gyfraith gyffredin.

6. Mae adran 22(1) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i'r PCC ystyried unrhyw honiad sy'n golygu bod yr osteopath:

   a) wedi bod yn euog o ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safon sy'n ofynnol gan osteopath cofrestredig (ymddygiad proffesiynol annerbyniol)

   b) wedi bod yn euog o anghymhwysedd proffesiynol

   c) wedi'i gael yn euog (unrhyw bryd) yn y Deyrnas Unedig o drosedd.

7. Mae adran 22(2) yn gofyn bod y PCC yn cymryd un o’r camau canlynol os yw’n fodlon bod yr honiad yn gadarn (wedi’i brofi):

   a) rhybuddio’r osteopath

   b) gwneud gorchymyn sy’n gosod amodau y mae’n rhaid i’r osteopath gydymffurfio â nhw wrth ymarfer fel osteopath (‘Gorchymyn Amodau Ymarfer’)

   c) gorchymyn bod y Cofrestrydd yn atal cofrestriad yr osteopath am gyfnod y gellir ei nodi yn y Gorchymyn (‘Gorchymyn Atal’)

   d) gorchymyn bod y Cofrestrydd yn dileu enw’r osteopath o’r gofrestr.

8. Os yw’r honiad o’r math a nodir yn 6. c) uchod a bod y PCC o’r farn nad yw’r drosedd dan sylw yn berthnasol i addasrwydd yr osteopath i ymarfer osteopathi, efallai na fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach (adran 22(3) o’r Ddeddf).

9. Mae’r canllawiau hyn yn ymwneud yn unig â phwerau’r PCC i wneud Gorchymyn sy’n gosod amodau y mae’n rhaid i’r osteopath gydymffurfio â nhw wrth ymarfer fel osteopath (‘Gorchymyn Amodau Ymarfer’).

**Gorchymyn Amodau Ymarfer**

10. Mae Gorchymyn Amodau Ymarfer (y Gorchymyn) yn caniatáu i osteopath barhau i ymarfer, gan ddarparu diogelwch i’r cyhoedd a chleifion. Prif ddiben y Gorchymyn yw diogelu’r cyhoedd. Os nad yw’n bosibl llunio amodau ymarferol sy’n sicrhau hyn, rhaid i’r PCC atal cofrestriad yr osteopath.

11. Mae dau fath o amodau: gallant fod yn gyfyngol ac atal osteopath rhag ymarfer mewn ffordd benodol neu ar gategori cleifion penodol; neu gallant ymdrin â diffygion o ran ymarfer a gofyn bod yr osteopath yn cael hyfforddiant ychwanegol neu weithgaredd arall i wella. Yn gyffredinol, bydd Gorchymyn yn cynnwys nifer o amodau a all fod yn gyfyngol ac ymdrin â diffygion.

12. Mae’n bwysig bod unrhyw osteopath sy’n destun Gorchymyn yn deall yn bendant yr hyn y disgwylir iddo ei gyflawni. Felly, dylai’r PCC bob amser lunio Gorchymyn ysgrifenedig sy’n nodi’n glir yr amodau y mae’n rhaid cydymffurfio â nhw. Dylai’r PCC hefyd esbonio ei resymau dros lunio’r amodau hyn.

## Llunio amodau

Sylwer: nid yw'r enghreifftiau a roddir isod yn rhestr gynhwysfawr.

## Amodau cyfyngol

13. Mae'n hanfodol bod y PCC yn adnabod ac yn nodi'n glir y risg a achosir gan yr osteopath a'i fod yn ei fodloni ei hun y gall yr amodau leihau'r risg. Os felly, gellir defnyddio amodau cyfyngol i ddiogelu'r cyhoedd a chleifion tra bod yr osteopath yn parhau i ymarfer.

14. Wrth lunio amodau cyfyngol, dylai'r PCC ofyn tri chwestiwn allweddol i'w hun:

    a) Beth yw'r risgiau y mae angen eu lleihau?

    b) Sut gellir diogelu'r cyhoedd a chleifion rhag y risgiau hyn?

    c) Sut gellir dangos a monitro cydymffurfiaeth â'r amodau?

## Beth yw'r risgiau y mae angen eu lleihau?

15. Bydd canfyddiadau'r PCC fel arfer yn nodi unrhyw risgiau i gleifion neu'r cyhoedd os caniateir i'r osteopath barhau i ymarfer. Er enghraifft:

    - os nad oedd gan yr osteopath y sgiliau angenrheidiol i gymryd hanes achos digonol, gallai cleifion fod mewn perygl o gael triniaeth anniogel.

## Sut gellir diogelu'r claf rhag y risgiau hyn?

16. Mae'n hanfodol bod yr amodau yn lleihau'r risgiau a nodwyd. Er enghraifft:

    - drwy roi'r osteopath o dan oruchwyliaeth tra ei fod yn ymarfer, gellir lleihau'r risg a nodwyd uchod.

## Sut gellir dangos a monitro cydymffurfiaeth â'r amodau?

17. Mae'r GOsC yn ymwneud yn bennaf â diogelu cleifion a'r cyhoedd. Lle gosodwyd amodau, mae'n bwysig bod y GOsC yn cael sicrwydd y cydymffurfir â'r holl amodau yn barhaus.

18. Er enghraifft, os gosodir amod cyfyngol sy'n gofyn bod osteopath yn darparu hebryngwr, gallai'r amodau hefyd fynnu bod yr osteopath yn rhoi copïau o ffurflenni presenoldeb wedi'u llofnodi gan yr hebryngwr i'r GOsC.

19. Os nad yw'n bosibl llunio amodau ymarferol sy'n:

a) lleihau'r risgiau a nodwyd

b) gallu cael eu mesur

c) gallu cael eu monitro

dylai'r PCC ystyried atal cofrestriad yr osteopath neu ddileu enw'r sawl sydd wedi'i gofrestru o'r Gofrestr.

**Amodau sy'n ymdrin ag ymarfer diffygiol**

20. Gall fod yn anodd llunio amodau i ymdrin ag ymarfer diffygiol a dylai'r PCC ofyn pedwar cwestiwn allweddol i'w hun wrth ymgymryd â'r dasg hon:

a) Beth yw'r broblem y mae angen ymdrin â hi?

b) Beth mae angen i'r osteopath ei wneud i ymdrin â'r broblem?

c) Sut dylai'r osteopath ddangos ei fod wedi ymdrin â'r broblem?

d) Sut dylai honiad yr osteopath ei fod wedi ymdrin â'r broblem gael ei wirio'n annibynnol?

**Beth yw'r broblem y mae angen ymdrin â hi?**

21. Mae angen sicrhau bod amcanion yr amodau yn ddigon eglur bob amser fel bod yr osteopath yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo. Dylai'r PCC nodi pob un o'r diffygion a nodwyd. Er enghraifft, gall fod y PCC wedi canfod:

- nad oes gan yr osteopath y sgiliau angenrheidiol i gymryd hanes achos digonol.

**Beth mae angen i'r osteopath ei wneud i ymdrin â'r broblem?**

22. Gan gymryd pob un o'r diffygion a nodwyd yn yr achos perthnasol, dylai'r PCC sicrhau bod yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan yr osteopath yn eglur ac esbonio sut mae'r amodau yn ymwneud â'r diffygion hyn. Er enghraifft:

- os nad oes gan yr osteopath y sgiliau angenrheidiol i gymryd hanes achos digonol, mae'n debygol y bydd angen iddo ymgymryd â rhyw hyfforddiant neu hunanddatblygiad i gael y ddealltwriaeth a'r sgiliau gofynnol.

**Sut dylai'r osteopath ddangos ei fod wedi ymdrin â'r broblem?**

23. Bydd y PCC am fod yn fodlon yr ymdriniwyd â'r diffygion a nodwyd yn ddigonol a bod yr osteopath bellach yn ymarfer yn unol â'r safonau gofynnol. Dylai'r PCC esbonio'n glir wrth yr osteopath pa dystiolaeth y bydd am ei gweld i fod yn fodlon ar hyn. Er enghraifft, tystiolaeth o'r canlynol:

- bod unrhyw gyrsiau hyfforddiant wedi'u cwblhau'n llwyddiannus
- adroddiadau gan osteopath sy'n goruchwylio
- manylion am unrhyw ddysgu hunangyfeiriedig ac adroddiadau myfyriol.

**Sut dylai honiad yr osteopath ei fod wedi ymdrin â'r broblem gael ei wirio'n annibynnol?**

24. Mae'n bwysig bod yr honiadau a wneir gan yr osteopath yn cael eu gwirio'n annibynnol.

    Gellir gwneud hyn drwy, er enghraifft:

- asesiad o berfformiad clinigol
- archwiliad annibynnol.

25. Mae templed wedi'i lunio i gynorthwyo'r PCC wrth lunio amodau o fewn y fframwaith hwn mewn achosion unigol. Rhoddir y templed hwn yn Atodiad B.

26. Yn Atodiad A, rhoddir geiriad enghreifftiol o Orchmynion Amodau Ymarfer blaenorol i gynorthwyo'r PCC wrth ddrafftio Gorchymyn.

# Atodiad A

## Geiriad enghreifftiol ar gyfer amodau

Isod, rhoddir enghreifftiau o'r geiriad y gellir ei ddefnyddio mewn Gorchmynion Amodau Ymarfer. Rhoddir y rhestr hon i arwain y PCC ac nid yw'n gynhwysfawr neu'n hollgynhwysol o bell ffordd.

| | |
|---|---|
| **Cyfyngiadau** | Er mwyn lleihau'r risg i'r cyhoedd a chleifion, gall fod angen gosod cyfyngiadau ar ymarfer yr osteopath |
| | Wrth ymarfer, rhaid i chi beidio â gwneud X oni bai eich bod yn cael eich goruchwylio'n uniongyrchol. |
| | Rhaid i'ch ymarfer gael ei oruchwylio'n uniongyrchol/yn fanwl gan osteopath cofrestredig. |
| | Rhaid i chi beidio â chynnal archwiliadau neu driniaeth bersonol ar gleifion heb fod hebryngwr yn bresennol. |
| | Rhaid i chi beidio ag ymgymryd ag ymgynghoriadau gyda chleifion gwrywaidd/cleifion benywaidd/cleifion o dan X oed. |
| **Goruchwyliaeth** | Gall goruchwyliaeth fod yn ffordd effeithiol o ddiogelu cleifion gan ganiatáu i'r osteopath barhau i ymarfer. |
| | Ni fyddwch yn ymarfer osteopathi ond o dan oruchwyliaeth osteopath cofrestredig arall ac ar gleifion sydd wedi cael gwybod ymlaen llaw eich bod o dan oruchwyliaeth. Rhaid i'r osteopath sy'n goruchwylio fod wedi'i gymeradwyo gan y GOsC. Rhaid i chi dalu ffioedd yr osteopath sy'n goruchwylio. |
| | At ddibenion y gofyniad hwn, mae goruchwyliaeth yn golygu bod yr osteopath sy'n goruchwylio ar y safle, ei fod yn cymeradwyo ymlaen llaw y driniaeth arfaethedig, yng ngoleuni hanes yr achos a chanfyddiadau archwiliad, a bod ganddo gyfrifoldeb clinigol am y claf. |

| | |
|---|---|
| | Rhaid i chi ddarparu i'r GOsC fanylion cyswllt llawn cydweithiwr proffesiynol sy'n barod i oruchwylio eich cydymffurfiaeth â'r amodau a rhoi adroddiad i'r GOsC bob X mis, gan roi manylion am unrhyw gynnydd neu gam yn ôl yn y maes penodedig. Rhaid i'r cydweithiwr sy'n goruchwylio fod wedi'i gymeradwyo gan y GOsC. Rhaid i chi dalu ffioedd y cydweithiwr sy'n goruchwylio. |
| | Rhaid i chi roi eich hun o dan oruchwyliaeth osteopath cofrestredig a fydd yn cwrdd â chi bob wythnos/mis i adolygu X. Rhaid i'r osteopath sy'n goruchwylio fod wedi'i gymeradwyo gan y GOsC. Rhaid i chi dalu ffioedd yr osteopath sy'n goruchwylio. |
| | Rhaid i chi roi eich hun o dan oruchwyliaeth osteopath cofrestredig a dylech gwrdd ag ef bob X ar y mwyaf a chaniatáu i'r goruchwyliwr baratoi adroddiad ar X y dylid ei anfon i'r GOsC. Dylai pob adroddiad roi ystyriaeth benodol i X. Rhaid i'r osteopath sy'n goruchwylio fod wedi'i gymeradwyo gan y GOsC. Rhaid i chi dalu ffioedd yr osteopath sy'n goruchwylio. |
| | Rhaid i chi weithio gyda'ch goruchwyliwr i lunio cynllun datblygu personol, sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ymdrin â diffygion yn y meysydd canlynol X. |
| **Hyfforddiant** | Yn aml bydd angen elfen o ail-hyfforddiant. |
| | Rhaid i chi gwblhau cwrs hyfforddiant mewn X yn llwyddiannus. |
| | Rhaid i chi gael cyfnod o ail-hyfforddiant mewn clinig addysgu sy'n cael ei gynnal gan sefydliad addysg osteopathig â chymhwyster cydnabyddedig yn y DU am o leiaf X awr. |
| | Rhaid i'r hyfforddiant hwn ymdrin â'r diffygion a nodwyd ym mhenderfyniad y Pwyllgor, sef X. |
| | Rhaid i'r hyfforddiant hwn ymdrin â'r safonau canlynol X. |

| **Archwiliad clinigol** | Gall archwiliad clinigol fod yn ffordd ddefnyddiol o wirio'n annibynnol honiad yr osteopath ei fod wedi cydymffurfio â'r amodau. |
|---|---|
| | Byddwch yn destun archwiliad annibynnol/archwiliadau X o'ch ymarfer cyn pen X wythnos/mis. |
| | Bydd yr archwiliad cyntaf yn cael ei gynnal X wythnos/mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddechrau. Bydd archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal bob X wythnos/mis, tan X. |
| | Rhaid i chi roi gwybod i unrhyw glaf y byddwch yn ei drin y bydd eich cofnodion yn cael eu hadolygu a'u harchwilio gan archwilydd annibynnol. |
| | Rhaid i chi gydweithredu â'r archwilydd a darparu pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen arno. |
| | Rhaid i chi sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion a luniwyd gennych ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddechrau ar gael i'w harchwilio. |
| | Yn yr archwiliad/Ym mhob archwiliad, bydd yr archwilydd yn arsylwi ar o leiaf X ymgynghoriad â chlaf, ac mae'n rhaid i X ohonynt fod yn ymgynghoriad â chlaf newydd. |
| | Bydd yr archwiliad o gofnodion cleifion ar y ffurf ganlynol:<br><br>Rhwng X a X mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddechrau, bydd yr archwilydd yn dod i'ch clinig a bydd angen iddo weld tystiolaeth o X yn benodol. |
| | Byddwch yn darparu tystiolaeth o X i'r archwilydd adeg yr archwiliad. |
| | Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod yr archwilydd yn bresennol mewn gwrandawiadau. Rhaid i chi dalu ffioedd yr archwilydd. |

| | |
|---|---|
| | Byddwch chi'n gyfrifol am gostau'r archwiliad a byddwch yn talu unrhyw anfonebau perthnasol cyn pen 28 diwrnod ar ôl eu derbyn. |
| | Bydd yr archwilydd yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor. |
| **Prawf cymhwysedd** | Mae Asesiad o Berfformiad Clinigol (prawf cymhwysedd) yn ffordd effeithiol ac annibynnol o sicrhau bod yr osteopath yn ymarfer yn unol â'r safonau gofynnol. |
| | Rhaid i chi gwblhau Asesiad o Berfformiad Clinigol yn llwyddiannus cyn X. Rhaid i chi dalu costau'r Asesiad. |
| **Gwrandawiad adolygu** | Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y PCC am adolygu'r Gorchymyn cyn iddo ddod i ben. |
| | Bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei adolygu mewn gwrandawiad cyn iddo ddod i ben. |
| | Yn y gwrandawiad adolygu, bydd y Pwyllgor am weld y dystiolaeth ganlynol:<br><br>X |
| | Rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth hon i'r GOsC o leiaf un mis cyn dyddiad y gwrandawiad adolygu. |

# Atodiad B

**Templed gwirio**

Wrth lunio amodau, dylai'r PCC ofyn ac ateb y cwestiynau canlynol.

*Sylwer*: enghreifftiau yw'r geiriau mewn llythrennau italig.

**1. Beth yw'r diffyg(ion) a/neu'r risg(iau) y mae angen ymdrin â nhw?**

Mae'n debygol y bydd y rhain yn deillio o ganfyddiadau'r PCC yn yr achos perthnasol.

| **Diffyg** | **Risg** |
|---|---|
| *Diffyg sgiliau angenrheidiol i gymryd hanes achos digonol* | *Hanesion achos annigonol yn cael eu cymryd* |
| | |

**2. Beth mae angen i'r osteopath ei wneud i ymdrin â'r diffyg(ion) a lleihau'r risg(iau)?**

Bydd amodau cyfyngol yn lleihau'r risg a bydd amodau addysgol yn ymdrin â'r diffyg.

| | |
|---|---|
| *Cwblhau'n llwyddiannus gwrs neu hyfforddiant priodol mewn cymryd a defnyddio hanesion achos* | *Ymarfer o dan oruchwyliaeth* |
| | |

**3. Sut mae hyn yn diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys cleifion?**

Esboniwch sut bydd y camau a gynigiwyd ym mhwynt 2 yn diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys cleifion.

| | |
|---|---|
| *Bydd hyfforddiant llwyddiannus yn codi sgiliau'r osteopath i'r safonau gofynnol* | *Bydd cleifion yn cael eu diogelu gan yr oruchwyliaeth* |
| | |

**4. Sut dylai'r osteopath ddangos ei fod wedi lleihau'r risg a/neu ymdrin â'r diffyg?**

Mae'n bwysig bod yr osteopath yn gwybod pa dystiolaeth y bydd angen iddo ei rhoi i'r PCC neu'r GOsC er mwyn dangos ei fod wedi cydymffurfio â'r amodau.

| | |
|---|---|
| *Tystiolaeth bod cwrs neu hyfforddiant mewn cymryd a defnyddio hanesion achos wedi'i gwblhau'n llwyddiannus* | *Adroddiad gan y goruchwyliwr* |
| | |

**5. Sut dylai honiadau'r osteopath gael eu gwirio'n annibynnol?**

Mae'n bwysig bod honiadau'r osteopath yn cael eu gwirio'n annibynnol. Gellir gwneud hyn drwy:

- Adroddiadau ar ymddygiad gan oruchwyliwr
- Archwiliad clinigol
- Llwyddo mewn Asesiad o Berfformiad Clinigol (prawf cymhwysedd).

| **Diffyg** | **Risg** |
|---|---|
| *Tystiolaeth bod cwrs neu hyfforddiant mewn cymryd a defnyddio hanesion achos wedi'i gwblhau'n llwyddiannus* | *Adroddiad gan y goruchwyliwr* |
| | |

**6. Sut gellir monitro cydymffurfiaeth â'r amodau?**

| **Amod** | **Dull o fonitro** |
|---|---|
| | |